## Canlyniadau Ymgynghoriad Ysgolion 21 Ganrif Canlyniad

# Llandrillo yn Rhos

Ysgolion yr 21ain Ganrif
21st Century Schools



**A ydych yn credu y gellid gwneud eich adeilad ysgol yn well?**

91% YDW

**Pa ysgol ydych chi'n gysylltiedig â hi?**

| | |
|---|---|
| Ysgol Llandrillo | 84 |
| Ysgol Eirias | 9 |
| Dim | 1 |
| Ysgol Arall | 9 |

**Pwy gymerodd ran?**

| | |
|---|---|
| Disgyblion | 2 |
| Rhieni/gwarcheidwaid | 50 |
| Staff | 25 |
| Llywodraethwr | 4 |
| Cyhoedd | 14 |
| Cynghorydd | 1 |
| Arall | 7 |

**Pa wasanaethau 'ychwanegol' sy'n bwysig i chi mewn ysgol?**

| | |
|---|---|
| Mannau Parcio / Gollwng | 75 |
| Darpariaeth Dysgu Yn Yr Awyr Agored | 67 |
| Clybiau Ar Ôl Ysgol | 67 |
| Clwb Brecwast | 65 |
| Cyfleusterau Chwaraeon / Hamdden | 63 |
| Darpariaeth ADY | 55 |
| Defnydd cymunedol | 42 |
| Cyn Ysgol / Cylch | 40 |
| Cysylltiadau cludiant cyhoeddus | 34 |
| Arall | 6 |

**Pa mor bell o safle presennol yr ysgol fyddech chi'n barodi deithio i unrhyw ysgol newydd?**

| | |
|---|---|
| 0 – 0.5 filltir | 48 |
| 0.5 – 1 filltir | 92 |
| 1 – 2 milltir | 81 |
| 2 - 3 milltir | 33 |
| 3+ milltir | 35 |

**Beth hoffech chi ei weld?**

| | |
|---|---|
| Adeilad Ysgol Gynradd Bresennol (cyfuno babanod a phlant iau) ar safle **presennol** | 54 |
| Adeilad Ysgol Gynradd Bresennol (cyfuno babanod a phlant iau) ar safle **newydd** | 46 |
| Adnewyddu / Estyniad i adeiladau'r Ysgol Fabanod presennol | 21 |
| Adnewyddu / Estyniad i adeiladau'r Ysgol Iau bresennol | 18 |
| Arall, nodwch isod | 6 |
| Gwneud dim – cadw popeth fel y mae | 5 |

**Cod post yr ymatebwyr**

| | |
|---|---|
| LL28 | 34 |
| LL29 | 10 |
| LL30 | 2 |
| LL31 | 1 |
| LL22 | 1 |
| CH8 | 1 |

## Ydych chi'n meddwl bod angen gwella'r adeilad yn eich ysgol bresennol?

**Rhai ymatebion:**

Ailddefnyddio cymaint â phosibl o'r hyn sydd gennym – ond gwneud popeth ar gyfer dibenion. Y ddau safle gyda'i gilydd.

• Neuaddau ar wahân ar gyfer bwyta ac Ymarfer Corff ac ati. (gydag acwsteg gweddus) • Lle perfformio o faint da ar gyfer sesiynau y Celfyddydau Mynegiannol gan gynnwys llwyfan a seddi os yn bosibl • Maes parcio staff • Ystafelloedd dosbarth mwy • Mwy o ystafelloedd ar wahân ar gyfer ADY/synhwyrau/cyfarfodydd ac ati, • Cynnal amgylchedd dysgu yn yr awyr agored (e.e. cadw coed ac ati.) • Cae chwarae gwastad gyda mwy o le • Llyfrgell • Mwy o adnoddau TGCh ar gael (e.e. iPads, gliniaduron ac ati)

Dwi ddim yn meddwl bod angen estyniad ar yr ysgol bresennol. Pobl o'r tu allan i'r dalgylch yn mynychu sy'n dangos bod yr ysgol yn gallu ymdopi gyda gofynion y gymuned.

Os oes yna arian ar gael, dwi'n meddwl y byddai'n dda cyfuno'r safleoedd babanod ac iau. Gyda mwy o ardaloedd awyr agored ar gyfer chwaraeon iddynt, ac efallai cyfleusterau parcio i rieni.

Nid oes yna ddigon o le ar y safle babanod ar gyfer estyniad. Mae'r un sefyllfa ar gyfer y babanod.

Byddwn wedi hoffi gwybod mwy cyn ateb hwn a dweud y gwir. Dwi ddim yn gwybod beth sydd ei angen neu ddim. Er enghraifft, sut mae ardaloedd y ddwy ysgol yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd? Beth yw'r materion ymarferol sy'n wynebu staff a disgyblion? Ydy'r adeiladau hŷn yn gostus i'w rhedeg/eu cadw?

Dwi'n teimlo fod yr ysgol yn rhy fach i'r nifer o ddisgyblion sy'n mynychu. Amser gollwng a chasglu'r plant o'r ysgol mae yna ormod o geir a tydyn nhw ddim yn poeni lle maen nhw'n parcio.

Byddai'r safle presennol yn anodd iawn gan fod y safle wedi'i rannu ar hyn o bryd. Eisiau adeilad ar un safle newydd ers i'r ddwy ysgol uno. Byddai hefyd yn darparu siwrnai ddi-dor i blant 4-11 oed yn unol â'r cwricwlwm arfaethedig newydd.

Moderneiddio'r adeiladau presennol, gwell darpariaeth ailaddurno, safle mwy diogel, ffensys ac ati

Byddai un safle yn dda er y byddai hynny'n golygu llawer mwy o blant ar un safle.

Yn ddelfrydol y safle presennol, os yw cau'r ffordd yn ddewis, ond fel arall, safle newydd.

Yn bersonol, fyddwn i ddim yn dymuno gweld yr ysgolion yn uno gan fy mod yn hoffi'r grŵp bach a theimlad yr ysgol. Dwi'n gwybod na fyddai fy mhlant yn ymdopi'n dda o fewn amgylchedd mwy i fabanod

Lleoliad presennol yr ysgol yn wych, fodd bynnag, mae'r adeiladau yn gymharol hen ac yn edrych yn flinedig. Byddai ysgol newydd ar y safle presennol yn berffaith.

Ni all yr ysgol barhau i weithio mor effeithiol ag y mae os bydd niferoedd yn parhau i godi a dim byd yn cael ei wneud, felly nid yw hynny'n opsiwn, byddai'n well gennai ddewis na fyddai'n effeithio gormod ar fywydau'r plant.

Mae adeiladau newydd bob amser yn well, cyfle gwych i ddechrau o'r newydd ac adeilad a adeiladwyd yn bwrpasol. Dwi'n hoffi'r ddau safle gan fy mod yn meddwl ei fod yn cael gwared ar rywfaint o'r pwysau a gall wneud y profiad ysgol yn llai brawychus o fewn amser byrrach..... nid yw'r plant yn gofod aros tan blwyddyn 6 i deimlo fel eu bod yn hŷn.

Yr un safle yn bwysig iawn ar gyfer ethos yr ysgol a'r disgyblion yn cymysgu

Rwy'n poeni am golli'r maes chwarae drwy estyniad/estyniadau. Mae estyniadau i'r safle babanod dros y blynyddoedd wedi cael effaith mawr ar hyn yn barod.

Rydym angen neuadd chwaraeon sy'n wahanol i'r neuadd fwyd gan ein bod yn colli llawer o amser ar hyn o bryd yn aros i staff glirio'r neuadd.

Byddai ysgol newydd a adeiladwyd yn bwrpasol yn wych i'r disgyblion a'r staff – ar hyn o bryd nid oes yna gyfleusterau i ddod â'r ysgol gyfan ynghyd mewn pethau fel cyngherddau Nadolig oherwydd nad oes yna lawer o le.

Mae cadw'r amgylchedd naturiol yn bwysig. Safle y tu allan yn hygyrch o bob ystafell ddosbarth. Parcio a mynediad i bawb. Y ddau safle ar yr yn llain.

Hoffwn weld mwy o gyfleusterau cymuned i wneud yr ysgol yn galon y gymuned.

Sicrhau digon o le i ganiatáu clwb ar ôl ysgol i gael nifer y plant sydd gennym ar hyn o bryd, gyda lle y tu allan.

Cymaint o ddefnydd â phosibl o ddeunyddiau cynaliadwy. Ymestyn y paneli solar presennol. Os nad oes yna goed aeddfed, bydd angen plannu coed. Mae'r disgyblion yn cael llawer o fudd o ardal y goedwig gyda'r pwll.

Byddai'n dda cael cyfleuster cyn ysgol ar y safle yn ogystal â Chael babanod a phlant iau yr ysgol gyda'i gilydd.

Angen ardal parcio mwy diogel ar gyfer gollwng/casglu'r plant. Neuadd fwy gan ei bod yn anodd cael lle i'r plant i gyd. Coridorau lletach hefyd. Adeilad wedi dyddio. Angen newid y fynedfa hefyd.

Mae'r holl gyfleusterau a gynigir ar hyn o bryd yn ardderchog ac angen eu cynnal. Angen cyfleusterau gollwng mwy diogel ac/neu faes parcio. Byddai cyfuno'r ysgolion i wneud un ysgol gynradd yn ddelfrydol.

Er dwi'n ffafrio aros ar y safle presennol yng nghanol y gymuned. Mae'r ysgol bresennol yn rhedeg y rhan fwyaf o'r gwasanaethau ychwanegol sydd i'w canmol. Fodd bynnag, mae cyfleustodau yr adeilad fel y Bwyleri, Gwres, Cegin yn torri'n rheolaidd.

Cegin ar gyfer gwersi (wyneb gweithio isel) Peiriant Golchi, Sychwr tawelach, Pod i blant ADY

Angen yr holl wasanaethau ychwanegol. Mae'r ysgol yn ysgol fawr gyda disgyblion ar draws y gymuned o bob math o gefndiroedd gwahanol. Mae'n bwysig bod cyfleusterau'r ysgol yn adlewyrchu gofynion y rhieni sy'n

gweithio, rhieni sengl, teidiau a neiniau, plant sydd angen gwasanaethau ychwanegol, man gollwng teithwyr pwrpasol.   Mae cyfleusterau'r ysgol angen adlewyrchu bywyd modern a gofynion modern a pharhau i fod yn ased i BAWB yn y gymuned.

Gall neuaddau ysgol greu incwm ychwanegol ar ôl eu sefydlu a'u rheoli'n gywir.

Ni fyddwn eisiau i fy mhlant orfod symud i safle gwahanol tra byddai unrhyw waith yn cael ei wneud ac ni fyddwn eisiau eu hadleoli i ysgol newydd.   Rydym wrth ein bodd gyda'n hysgol ond hoffem iddi gael ychydig o ofal a sylw

Ystafelloedd dosbarth mwy, mynediad gwell i'r anabl, llain 4g, cyfleusterau plymio a thoiledau gwell, mynediad ac egres gwell, neuadd chwaraeon/dawns/drama (ar wahân i'r neuadd bwyta) ystafell dawel/synhwyrau.

Sawl pwynt mynediad ar gyfer casglu'r plant amser mynd adref. Cyfleusterau parcio i staff ystafelloedd dosbarth gyda'u toiledau a'u hystafell gotiau eu hunain.  Maes chwarae diogel sy'n fflat.  Mynediad gwell i'r anabl.   2 neu 3 neuadd fawr.  Ystafell fwyta sydd ar wahân i'r neuaddau.   Digon o ystafelloedd ychwanegol ar gyfer ymyrraeth.   Stiwdio ddawns, ystafelloedd newid, toiledau dynion a merched

Lle ar gyfer grwpiau ychwanegol, storio y tu allan, ysgol goedwig, tŷ pen coeden, ystafelloedd dosbarth o faint da, caeau chwarae ar wahân, ystafelloedd cotiau a thoiledau i bob grŵp oed, llwyfan, cypyrddau glanhau i staff gael mynediad iddynt

Man gollwng a chasglu a pharcio gwell ar y safle.  Yn fy marn i mae'r adeilad wedi dyddio, llawer rhy fach ac nid yw'n addas i'r diben.  Rydym angen mwy o ystafelloedd dosbarth, cae chwarae mwy, cyfleusterau newid i annog iechyd a lles – rhedeg reidio i'r ysgol

Byddai'n well gennyf i'r ysgol aros ar y safle hwn,

Mae angen mwy o allanfeydd diogel i ryddhau plant ar ddiwedd y dydd.    Byddai'n wych cynnal safon a nifer yr ardaloedd awyr agored sydd ar gael.  Maes parcio staff gyda phwyntiau gwifro trydan.  Storio beics yn ddiogel/pwyntiau cloi. Paneli solar neu rywbeth tebyg. Ardaloedd awyr agored wedi eu cysylltu i bob ystafell ddosbarth i fabanod a phlant iau.  Toiledau i bob grŵp oed gydag ardaloedd storio penodedig ar gyfer bocsys bwyd, cotiau ac ati. Mwy o doiledau i athrawon, ystafelloedd cotiau, cawod i staff.   Ystafell staff canolog i bob dosbarth i gael mynediad.  Ystafelloedd dosbarth golau.  Ardaloedd chwarae fflat gydag offer priodol. Neuadd fawr gydag acwsteg gweddus.

Gall fod yn anodd i rieni sydd angen gollwng eu plant yn yr ysgol gan y gall fod yn brysur iawn ac nid oes yna le i bawb barcio.   Rwy'n byw o fewn pellter cerdded felly rwy'n ffodus, ond gallaf weld pa mor brysur mae'n gallu bod ac mae hwn yn fater diogelwch hefyd.

Mae gennym frawdoliaeth dysgu a chefnogaeth gwych yn yr ysgol hon felly byddai adeilad a adeiladwyd at ddiben modern yn gwella profiad yr ysgol i bawb. Digon o le, cyfle i chwarae, llawer o olau naturiol, adeilad sy'n defnyddio adnoddau naturiol/ynni, ystafelloedd synhwyrau i helpu'r sawl sydd ag anghenion ychwanegol.  Adeiladau sy'n cwrdd â gofynion technoleg bresennol ac wedi paratoi ar gyfer datblygiad technolegol yn y dyfodol.   Hefyd, cyfleusterau modern ar gyfer timau'r gegin a glanhau.   Lle cyfforddus i athrawon gael egwyl neu lle gallant gael cyfarfodydd preifat a phreifatrwydd i gwblhau gwaith sy'n weddill yn ddi-dor.   Neuadd gymunedol y gellir ei harchebu a'i defnyddio gan y gymuned, ond nad yw'n faich i'r ysgol. System ffordd newydd posibl fyddai'n hwyluso gollwng plant, tebyg i lôn bws lle gall rhieni yrru i mewn lle gellir cwrdd â'r plant a'u hebrwng yn ddiogel i mewn i'r ysgol. Dylem edrych ar beth mae ysgolion preifat yn gynnig a pha gyfleusterau sydd ganddynt; y coleg lleol; a hefyd yr ysgol anghenion arbennig lleol ... gadewch i ni gael syniadau gwych!

Darparu clwb brecwast o 7.30am yn ddefnyddiol i rieni sy'n gweithio.

Hapus gyda'r ddarpariaeth ysgolion presennol / clybiau, ond mae'r ysgol yn hen iawn a byddai'n well ailadeiladu.

Byddai defnydd cymunedol a chysylltiadau cludiant cyhoeddus yn ddefnyddiol.

Mae cadw maint dosbarthiadau i lawr bob amser yn ystyriaeth bwysig.

## Diolch i bawb a gymerodd ran ac am ychwanegu i'r broses.

